



Cyngor Dinas Casnewydd

# Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg

2016-2017

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

This document is available in English

**I gael copi o'r ddogfen yma mewn unrhyw fformat arall**

**e.e. Breil, Print Bras cysylltwch â:**

To receive a copy of this document in any other format e.g.

Braille, Large Print etc. contact:

[info@newport.gov.uk](mailto:info@newport.gov.uk)

## Cynnwys

Y Cyd-destun Deddfwriaethol.....	1
Crynodeb Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd .....	2
Crynodeb 1: Safonau Darparu Gwasanaeth.....	3
Crynodeb 2: Safonau Llundio Polisi .....	3
Crynodeb 3: Safonau Gweithredu .....	3
Crynodeb 4: Safonau Hyrwyddo .....	3
Crynodeb 5: Cadw Cofnodion .....	3
Sgiliau Staff.....	4
Hyfforddiant.....	5
Swyddi Newydd .....	5
Cwynion .....	6

### Y Cyd-destun Deddfwriaethol

Paratowyd yr adroddiad blynyddol hwn yn unol â Safonau 158, 164 a 170 y Gymraeg. Bydd yr adroddiad hwn yn dangos sut mae Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a roddwyd i ni gan Gomisiynydd y Gymraeg yn Hysbysiad Cydymffurfio Casnewydd.

Yn ogystal â nodi cydymffurfiaeth gyffredinol yr awdurdod, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys y wybodaeth benodol sy'n ofynnol gan y Safonau. Mae'r data hyn yn cynnwys nifer y cwynion a gawsom, lefel Cymraeg ein staff, yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a lefel y Gymraeg sydd ei hangen arnom ar gyfer pob swydd wag a phob swydd newydd a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Crynodeb Blynyddol Cyngor Dinas Casnewydd

Mae Safonau'r Gymraeg wedi sbarduno CDC i ymateb i her Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cwbl ddwyieithog. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'r cynnydd da y mae'r awdurdod wedi'i wneud o ran cyflawni'r nod hwn, tra'n nodi'r gwaith sydd ar ôl i'w wneud hefyd.

Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu dull cyfannol o gyflawni newidiadau, gan bennu cyfrifoldeb i feysydd gwasanaeth a rhoi trefniadau llywodraethu ar waith drwy Grŵp Gweithredu'r Gymraeg a'r Grŵp Cydraddoldebau Strategol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon mae cryn dipyn o gynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd; erbyn hyn mae gan y Gymraeg gyllideb wedi'i neilltuo, rheolwyr prosiect penodedig a threfniadau llywodraethu effeithiol ar gyfer cyflawni'r newidiadau gofynnol. Mae aelodau o staff yn croesawu'r cyhoedd yn ddwyieithog a nododd adborth o gynhadledd y staff ym mis Hydref 2016 fod staff yn teimlo'n fwyfwy hyderus wrth gynnig a darparu gwasanaethau dwyieithog. Mae'r newid hwn tuag at ddwyieithrwydd wedi'i hwyluso drwy roi gwasanaeth cyfieithu a ariennir yn ganolog ar waith, sy'n cyfieithu llawer iawn o ddeunydd ar gyfer yr awdurdod yn effeithlon.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein heriau swyddogol i Hysbysiad Cydymffurfio'r Comisiynydd, oherwydd cyfyngiadau ar ein systemau meddalwedd presennol a gallu cyfyngedig ein staff o ran y Gymraeg, ni fu'n bosibl i ni gydymffurfio'n llawn â phob safon. Bydd angen i Gyngor Dinas Casnewydd gynnal y momentwm yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod er mwyn sicrhau y caiff Safonau'r Gymraeg eu gweithredu'n gyson.

Mae'r awdurdod wedi nodi nifer o gamau gweithredu a fydd yn ein helpu i gynnal y momentwm yn y flwyddyn sydd i ddod, gan gynnwys:

- gwella'r ffordd rydym yn ymgysylltu â staff
- gwella'r ffordd rydym yn nodi ac yn cofnodi dewis iaith a chwynion
- profi ein gallu i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg
- rhoi Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ar waith er mwyn cefnogi siaradwyr Cymraeg ymhellach a gwneud gwell defnydd ohonynt
- nodi mwy o weithredwyr gwasanaethau cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gwasanaethau rheng flaen
- datblygu canllawiau integredig mewn asesiadau effaith
- rhoi Strategaeth 5 Mlynedd y Gymraeg ar waith
- datblygu gwefan gwbl ddwyieithog i'r awdurdod
- cynnal y momentwm dros newid

## **Crynodeb 1: Safonau Darparu Gwasanaeth**

Dengys adolygiad o'n cydymffurfiaeth â Safonau Darparu Gwasanaeth y cynnydd cadarnhaol y mae CDC wedi'i wneud o ran darparu gwasanaethau dwyieithog i aelodau o'r cyhoedd. Fodd bynnag, hwn yw'r grŵp o safonau sy'n peri'r risg fwyaf i'r awdurdod hefyd, am mai'r safonau hyn yw'r rhai sy'n effeithio fwyaf ar y cyhoedd. Oherwydd hyn, bydd yr awdurdod yn ceisio datblygu a gweithredu rhaglen cwsmeriaid cudd a fydd yn profi cydnerthedd ein gwasanaethau Cymraeg dros y 12 mis nesaf.

## **Crynodeb 2: Safonau Llundio Polisi**

Caiff cyfarwyddiadau gwell ynglŷn â safonau Llundio Polisi eu dosbarthu i staff drwy ein canllawiau ar Aseidiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb, a fydd ar gael ar ein mewnwyd ac a gaiff eu hysbysebu'n eang ymhlith staff y cyngor. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi lle mwy blaenllaw i'r Gymraeg ochr yn ochr ag ystyriaethau eraill sy'n ymwneud â chydraddoldeb a byddant yn sicrhau bod swyddogion atebol yn deall yn llawn oblygiadau Safonau'r Gymraeg i unrhyw newid i bolisi neu unrhyw gynnig a fydd yn effeithio ar bobl a/neu'r ffordd y darperir gwasanaethau.

Caiff canllawiau ar ddyfarnu grantiau a rhoi contractau eu datblygu hefyd a byddant yn destun grŵp gorchwyl a gorffen mewnol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## **Crynodeb 3: Safonau Gweithredu**

Mae'r awdurdod o'r farn ei fod yn cydymffurfio â'r safonau hyn ar y cyfan. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau staff a chreu amgylchedd gwaith sy'n hwyluso'r defnydd achlysurol o'r Gymraeg drwy strategaeth cyfathrebu â staff gadarnhaol.

## **Crynodeb 4: Safonau Hyrwyddo**

Ym mis Mawrth 2017 cymeradwyodd y Cabinet a'r Cyngor [Strategaeth 5 Mlynedd yr Iaith Gymraeg](#) ar gyfer y ddinas. Mae'r Strategaeth ar gael ar wefan yr awdurdod ac yn nodi sut y byddwn yn hyrwyddo'r Gymraeg dros y pum mlynedd nesaf.

## **Crynodeb 5: Cadw Cofnodion**

Mae'r awdurdod yn asesu ei fod yn cydymffurfio yn y maes hwn Fodd bynnag, rydym wrthi'n datblygu system newydd ar gyfer Rheoli Cyberthnasau â Chwsmeriaid a fydd yn gwella'r ffordd rydym yn cofnodi cwynion a gwybodaeth am gwsmeriaid mewn perthynas â dewis iaith.

## Sgiliau Staff

Mae'r awdurdod yn casglu gwybodaeth am allu ei staff i siarad Cymraeg drwy ofyn iddynt gofnodi eu lefel sgiliau yn wirfoddol drwy borth Hunanasesu'r Cyflogai. Ar 31/03/17 roedd yr awdurdod yn cyflogi 6147 o aelodau o staff, gan gynnwys staff mewn ysgolion. Yn y tabl isod ceir dadansoddiad o'u gallu hysbys o ran y Gymraeg.

### Sgiliau Cymraeg pob un o Gyflogeion hysbys Cyngor Dinas Casnewydd ar 31/03/16

Cyfanswm
6,147

Cymhwysedd o ran y Gymraeg	NIFER Y CYFLOGEION YN ÔL SGÔR				Dim Cofnod
	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	
Y Gymraeg - Darllen	2,782	1,135	210	158	1,833
Y Gymraeg - Siarad	2,574	1,324	210	183	1,856
Y Gymraeg - Deall	2,606	1,272	224	193	1,852
Y Gymraeg - Ysgrifennu	2,830	1,079	198	171	1,869
Canran gyfartalog o'r Cyfanswm	43.9%	19.6%	3.4%	2.9%	30.1%

Isod ceir crynodeb o ddsbarthiad sgiliau Cymraeg staff mewn meysydd gwasanaeth gwahanol. Fel y dangosir yn y tabl, ar hyn o bryd mae gan yr awdurdod grynhoad uwch o staff â sgiliau Cymraeg sy'n gweithio mewn ysgolion nag sydd gennym yng ngwasanaethau eraill y cyngor.

Siaradwyr Cymraeg yn ôl maes gwasanaeth	Lefel Cymhwysedd o ran y Gymraeg	Uwch	Dechreuwyr	Canolradd	Dim
<b>Maes Gwasanaeth</b>	<b>Cymhwysedd</b>				
<b>Gwasanaethau Oedolion a'r Gymuned</b>	laith Gymraeg - Siarad	6	27	5	257
<b>Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc</b>	laith Gymraeg - Siarad	5	43	5	218
<b>Addysg</b>	laith Gymraeg - Siarad	5	46	5	150
<b>Cyllid</b>	laith Gymraeg - Siarad	1	16		60
<b>Y Gyfraith a Rheoleiddio</b>	laith Gymraeg - Siarad	8	33	4	167
<b>Pobl a Newid Busnes</b>	laith Gymraeg - Siarad	4	20	4	90
<b>Adfywio, Buddsoddi a Thai</b>	laith Gymraeg - Siarad	16	140	14	256
<b>Ysgolion</b>	laith Gymraeg - Siarad	137	976	168	1150
<b>Cyfarwyddwyr Strategol</b>	laith Gymraeg - Siarad		2		3
<b>Y Gwasanaethau Stryd a Gwasanaethau'r Ddinas</b>	laith Gymraeg - Siarad	4	25	5	245
<b>Cyfanswm</b>		186	1328	210	2596

## Hyfforddiant

Yn unol â safon 128, mae'r awdurdod yn cynnig nifer o sesiynau o hyfforddiant Cymraeg. Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-2017, cynigiodd yr awdurdod bedwar cwrs hyfforddi corfforaethol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys: Hyfforddiant ar Reoli Perfformiad, Sefydlu Corfforaethol, Iechyd a Diogelwch i Reolwyr a Rheoli Corfforaethol.

Fodd bynnag, ni chyflwynwyd yr un o'r cyrsiau hyn am nad oedd yr un aelod o staff wedi gofyn amdanynt. Felly, nid aeth yr un aelod o staff a fynychodd gwrs i fersiwn Gymraeg.

## Swyddi Newydd

Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-2017 hysbysebodd CDC 842 o swyddi gwag a newydd. Isod ceir tabl sy'n nodi'r gofynion o ran y Gymraeg a oedd yn gysylltiedig â'r swyddi hyn. Mae'r data hyn yn cynnwys staff craidd y cyngor a staff a oedd yn gweithio mewn ysgolion.

### Gofynion o ran medru'r Gymraeg ar gyfer swyddi newydd (pob swydd)

Nifer y swyddi newydd
842

Y gofyniad o ran medru'r Gymraeg	Nifer	Canran o'r cyfanswm
Hanfodol	51	6.1%
Dymunol	270	32.1%
Ddim yn angenrheidiol	520	61.8%
I'w dysgu yn y swydd	1	0.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>842</b>	

Pe baem yn dileu staff sy'n gweithio mewn ysgolion o'r set ddata hon ac yn canolbwyntio ar staff craidd y cyngor yn unig gallwn weld gostyngiad bach yng nghanran y swyddi lle mae'r Gymraeg yn 'Hanfodol' ac yn 'Ddymunol'. Mae hyn yn awgrymu bod gennym gyfran uwch o swyddi lle mae'r Gymraeg yn Hanfodol ac yn Ddymunol yn cael eu hysbysebu mewn ysgolion nag sydd gennym yng ngwasanaethau craidd y cyngor.

### Gofynion o ran medru'r Gymraeg ar gyfer swyddi newydd (heb gynnwys ysgolion)

Nifer y swyddi newydd
600

Y gofyniad o ran medru'r Gymraeg	Nifer	Canran o'r cyfanswm
Hanfodol	25	4.2%
Dymunol	189	31.5%
Ddim yn angenrheidiol	385	64.2%
I'w dysgu yn y swydd	0	0.0%
<b>Cyfanswm</b>	<b>600</b>	

## Cwynion

Ni chafwyd unrhyw gwynion drwy ein system Rheoli Gwasanaethau Cwsmeriaid ynghylch safonau darparu gwasanaethau Cymraeg, safonau gweithredu na safonau llunio polisi. Fodd bynnag, cafwyd dwy gŵyn yn uniongyrchol gan swyddogion y Gymraeg. Roedd y naill yn ymwneud â safonau llunio polisiau a nifer y staff sydd ar gael ar ein llinell ffôn Gymraeg a'r llall yn ymwneud â'r ffaith bod arwydd Cymraeg yn ein meysydd parcio wedi'i guddio o'r golwg. Cyflwynir adroddiad blynyddol ar ddata cwynion cwsmeriaid gerbron y Cabinet ym mis Medi 2017. Rydym yn cydnabod bod angen datblygu prosesau ar gyfer cofnodi cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ymhellach.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mae CDC wedi ymdrin ag un gŵyn gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch methiant i gydymffurfio â'r safonau. Roedd y gŵyn hon yn ymwneud â'r ffaith nad yw'r awdurdod yn darparu gwersi nofio, a ddarperir drwy bartneriaeth â Chasnewydd Fyw, drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar 31 Mawrth 2017 roedd y gŵyn yn dal heb ei datrys.

Dyddiad: 22 Mai 2017  
Awdur: Swyddog yr Iaith Gymraeg a Phrosiectau Cydraddoldeb